YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Ffurflen Adroddiad Arolwg Adran 50 o Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul

Oakley Place
Grangetown
Caerdydd
CF11 7EU

Esgobaeth: Llandaf

Awdurdod lleol: Cyngor Caerdydd
Dyddiadau'r arolwg: 22ain Medi 2026
Dyddiad yr arolwg diwethaf: 2017
Rhif cyfeirnod unigryw'r ysgol: 401652
Pennaeth: Ruth Wiltshire
Enw'r arolygydd: Jennie Downes

Cyd-destun yr Ysgol

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Paul wedi gwasanaethu cymuned Grangetown ers ei sefydlu fel Ysgol Eglwysig Genedlaethol ym 1864. Y nifer ar y gofrestr yw 216, gan gynnwys darpariaeth feithrin. Mae'r ysgol yn gymuned ag amrywiaeth cyfoethog, gyda 155 o ddysgwyr amlieithog a 29 o ieithoedd yn cael eu cynrychioli. Mae cyfanswm o 31% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd), ac mae gan 10% anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddysgwyr yn cael eu tynnu'n ôl o addoli ar y cyd.

Natur unigryw ac effeithiolrwydd Ysgol Wirfoddol Eglwysig Sant Paul fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru

Mae gweledigaeth yr ysgol o deulu amrywiol o ddysgwyr sy'n credu, yn perthyn ac yn llwyddo gyda'i gilydd yn amlwg ym mhob agwedd ar fywyd yn Ysgol Sant Paul ac yn cael ei fyw trwy gyfraniad yr ysgol i gymuned Grangetown a'r rhan mae'n ei chwarae ynddi. Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn meithrin ymdeimlad cryf o deulu ac yn gwerthfawrogi perthnasoedd cymunedol, sy'n ganolog i'r amgylchedd dysgu creadigol. Mae gweledigaeth ddiwinyddol yr ysgol, sydd â ffydd "wrth galon popeth"

yn ganolog iddi, yn ffynhonnell cysylltiad ac yn annog aelodau o deulu'r ysgol i ofalu am ei gilydd, am y gymuned ehangach, ac am yr amgylchedd.

Mae'r ysgol yn cofleidio'i threftadaeth Gristnogol ochr yn ochr â'r 'tapestri' cyfoethog o ffyddiau a chredoau yng nghymuned Grangetown. Disgrifir ffydd fel "llinyn aur" sy'n rhwymo cymuned yr ysgol ac yn cryfhau ei hunaniaeth. Daw'r syniad hwn yn fyw yn y murlun 'Tapestri Bywyd', a grëwyd mewn cydweithrediad ag artist lleol o Gymru. Mae'r ysgol yn disgrifio'r gwaith celf fel "tynnu edafedd y gymuned at ei gilydd". Mae hyn yn adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol, sydd wedi'u gwreiddio mewn sylfaen Gristnogol a threftadaeth amrywiol y gymuned.

Mae'r ysgol wedi adeiladu cysylltiadau cadarnhaol â'r gymuned ehangach. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfoethogi bywyd yr ysgol ac yn helpu dysgwyr i ddeall eu rôl a'u perthnasoedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae perthyn yn ymestyn y tu hwnt i'r ysgol; caiff dysgwyr eu cefnogi i weld eu hunain fel aelodau o deulu'r ysgol, y gymuned leol, a'r byd ehangach. Trwy ei gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar ffydd, ei hymarfer cynhwysol, ei threftadaeth amlddiwylliannol, a'r gymuned a chysylltiadau byd-eang, mae Ysgol Gynradd Sant Paul yn ceisio helpu ei dysgwyr i Gredu, Perthyn a Llwyddo gyda'i gilydd.

Gan dynnu ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau'r gymuned gyfan, mae teulu'r ysgol yn darparu modelau rôl cadarnhaol. Mae ethos unigryw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul wedi'i adeiladu ar werthoedd cyffredin, perthnasoedd cryf, a chred mewn potensial torfol a chyfraniad pawb tuag at adeiladu dyfodol llwyddiannus. Mae'r weledigaeth yn amlwg yn y cyfleoedd y caiff dysgwyr a staff i ddysgu a llwyddo y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Cryfderau sefydledig

Tegwch a Chynhwysiant: Mae gwreiddio egwyddorion a hawliau gwrth-hiliol yn benodol yn sicrhau ymagwedd blwraliaethol at y cwricwlwm. Mae'r holl staff wedi ymrwymo i sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei gydnabod, ei barchu, a'i ddathlu.

Ymreolaeth Dysgwyr: Mae'r ymagwedd ymholi dosbarth, dan arweiniad dysgwyr, yn grymuso dysgwyr yn llwyddiannus i ymchwilio i'w hunaniaeth, eu gwerthoedd, a'u cryfderau eu hunain tra'n darparu cyfleoedd i archwilio'r cyfraniadau diwylliannol amrywiol sy'n llywio Cymru gyfoes.

Argymhellion

Parhau i ddatblygu cysylltiadau rhwng gweledigaeth esblygol yr ysgol am ddyfodol byd-eang a chynefin a threftadaeth Gristnogol Gymreig wreiddiedig Esgobaeth Llandaf.

Cefnogi rhieni a gofalwyr i ddeall sut y caiff y weledigaeth hon ei gwireddu drwy Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), a dangos sut mae modd adnabod y ddealltwriaeth Gymreig ddofn o gynefin drwy storïau am le.

Mae'r ysgol, trwy ei chymeriad Cristnogol unigryw, yn diwallu anghenion pob dysgwr gan gynnwys cyfraniad Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i Gymeriad Cristnogol yr ysgol

Mae Ysgol Gynradd Sant Paul yn tynnu ar ei chymeriad Cristnogol penodol a gwerthoedd craidd Credu, Perthyn a Llwyddo i greu amgylchedd cynhwysol, diogel a meithringar i bob dysgwr. Drwy drosi'r weledigaeth ddiwinyddol sylfaenol, sydd wedi'i seilio ar yr ysgrythur "oherwydd yn ôl ffydd yr ydym yn rhodio, nid yn ôl golwg" i'w hymarfer bob dydd, mae cymuned yr ysgol yn cefnogi twf ysbrydol a phwrpas academaidd. Mae Ysgol Sant Paul yn dathlu ei lle yn y gymuned sy'n gyfoethog o amrywiol ac amlddiwylliannol drwy ymrwymiad at ddeialog ryng-ffydd ystyrlon sy'n anrhydeddu ymdeimlad unigryw pob dysgwr o gynefin.

Mae cymuned yr ysgol wedi'i hangori'n gadarn yn ei gwerthoedd craidd o Gredu, Perthyn a Llwyddo, sy'n coleddu amgylchedd diogel a meithringar. Mae dysgwyr yn cyrraedd yr ysgol ac yn cael eu cyfarch gan staff, gan greu amgylchedd croesawgar a theuluol ei natur. Mae amgylchedd yr ysgol yn cael gofal da, ac mae'r defnydd arloesol o'r awyr agored yn cysylltu dysgwyr â'r byd naturiol drwy fannau gwyrdd dynodedig a chyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr brofi a threulio amser ym myd natur.

Caiff pob rhan o'r ysgol ei thrysori a'i pharchu, a chaiff dysgwyr eu haddysgu i ofalu am yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol fel ei gilydd a'u gwerthfawrogi. Mae eitemau fel gwrthrychau sy'n cael eu canfod, eu huwchgylchu, ac eitemau naturiol yn creu adnoddau dysgu yn y mannau dysgu awyr agored ac yn yr ystafelloedd dosbarth. Mae'r plant yn perchnogi gweledigaeth yr ysgol, ethos sy'n cael ei adlewyrchu yn y mosäig yng nghyntedd yr ysgol; mae'r gwaith celf yn dangos sut mae'r ysgol yn cynrychioli: Teulu o ddysgwyr sy'n credu, yn perthyn ac yn llwyddo gyda'i gilydd.

Mae'r gwerthoedd hyn o barch a gofal yn ategu Ysgol Sant Paul fel lle sy'n hyrwyddo dysgwyr iach, hyderus ac yn amlygu arwyddocâd lles ysbrydol. Mae rhieni/gofalwyr yn rhannu'r gred bod yr ysgol yn gwerthfawrogi cymeriad personol y plant cymaint ag y mae'n gwerthfawrogi cyflawniad academaidd.

Ymysg yr arferion dyddiol mae addoli ar y cyd, gweddi, a myfyrio, sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ymreoleidd-dra emosiynol, hunanymwybyddiaeth, ymdeimlad o werth personol, a hunaniaeth, a hynny drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi amser ar gyfer ffyniant ysbrydol, ac mae Gofod Gweddïo croesawgar ym mhob ystafell ddosbarth a man myfyrio sy'n cofleidio traddodiadau crefyddol amrywiol ac yn parchu amrywiaeth cyfoethog y gymuned. Mae rhieni/gofalwyr yn gwerthfawrogi'r amgylchedd cefnogol a gofalgar y mae hyn

yn ei ddarparu. Maent am ddeall sut y caiff sylfaen Gristnogol yr ysgol ei mynegi a'i chynnal yn rhan o'r gymuned gyfoethog amlddiwylliannol hon. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn darparu cyfle i archwilio sylfaen Gristnogol yr ysgol yn rhan o gynefin unigryw Grangetown ac Esgobaeth Llandaf.

Mae'r ysgol yn trosi'r alwad "oherwydd yn ôl ffydd yr ydym yn rhodio, nid yn ôl golwg" yn ymholi a myfyrio moesegol ymarferol yn yr ystafell ddosbarth. Drwy Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg caiff dysgwyr eu hannog i ddatblygu, dangos, a mynegi eu dealltwriaeth bersonol o ffydd, credoau, gwerthoedd ac argyhoeddiadau. Mae addoli ar y cyd yn meithrin ymdeimlad o berthyn sydd wedi'i wreiddio yn y traddodiad Cristnogol, tra'n sensitif i draddodiadau ffydd a gwerthoedd y gymuned. Mae'r ysgol gyfan yn cofleidio cyfoeth perthyn i gymuned ryng-ffydd. Mae dathliadau Eid, Diwali a'r Flwyddyn Newydd Leuadol yn hyrwyddo dealltwriaeth a pharch dwfn at ffyddiau a phersbectifau gwahanol. Mae'r Iftar cymunedol blynyddol yn ystod Ramadan, sy'n cael ei arwain gan arweinwyr ffydd lleol, yn croesawu teuluoedd a'r gymdogaeth ehangach i rannu defodau torri'r ympryd, gan ddangos ymrwymiad dwfn yr ysgol i letygarwch, cynhwysiant a pharch at ei gilydd.

Yn ystod y dathliadau blynyddol yr haf, mae teulu cymuned Sant Paul yn dod at ei gilydd ar gyfer eu picnics 'Great Get-Together'. Mae'r digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar rannu diwylliannol er mwyn meithrin perthyn ac amlygu lle'r ysgol fel teulu yn y gymuned.

Mae'r ysgol yn rhan fawr o'r gymuned, gan ddathlu hawl pob unigolyn i'w stori bersonol ei hun. Mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol gyda sefydliadau partner fel Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) a Phafiliwn Grangetown. Mae bron bob dysgwr yn cydnabod gwerth cynhenid yr ysgol o helpu a gofalu am bawb. Mae dysgwyr iau yn rhannu'r teimlad bod yr ysgol yn lle hapus iawn ac yn cytuno bod eu hathrawon yn eu helpu pryd bynnag y mae angen cymorth arnynt. Mae bron bob dysgwr yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod gofal amdanynt a'u bod yn cael eu hannog i fod yn garedig ac i helpu eraill.

Effaith addoli ar y cyd ar gymuned yr ysgol

Mae addoli ar y cyd yn ganolog i fywyd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul. Mae'n gynhwysol ac yn wahoddol, gan dynnu'r ysgol gyfan at ei gilydd. Mae'r bwrdd cymun yn adlewyrchu'r flwyddyn litwrgaidd ac yn cynrychioli Tymor y Creu. Mae plant yn arwain yr alwad i addoli ac yn croesawu pawb i'r adeg arbennig hon yn y diwrnod ysgol. Caiff cannwyll ei chynnau, a chynigir yr ymateb yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r addoli'n dechrau gyda chân fywiog, gan greu amgylchedd hapus a chyfeillgar i blant. Mae aelod o'r clerigwyr, sy'n ymweld yn rheolaidd â'r ysgol ac yn gwasanaethu fel llywodraethwr, yn arwain cyfnod o feddwl a myfyrio. Mae stori am y Brenin Dafydd yn sbarduno dysgwyr i ystyried sut y maent yn trin eraill ac yn gofalu am y byd. Mae'r plant yn gwrando'n astud ac yn myfyrio gyda'i gilydd ar rannu

a chydweithio. Mae emyn gweddigar yn dilyn, ac mae'r awyrgylch yn dawel, a'r dysgwyr yn ymateb yn feddylgar.

Mae ethos gofalgar yr ysgol yn cefnogi dysgu am Dduw tra'n parchu mynegiant cred a ffydd pob person. Mae arweinwyr yn cydnabod y gall dysgwyr berthyn i fwy nag un gymuned. Mae dysgwyr yn rhannu "bod plant yn gallu meddwl am Dduw a chrefyddau eraill a Duwiau eraill" a "Dwi'n hoffi dysgu am Dduw a duwiau pobl eraill". Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr hŷn yn dweud bod addoli yn eu helpu i deimlo'n rhan o deulu'r ysgol. Mae dysgwr arall yn rhannu, "Rydym yn garedig oherwydd y gallwch chi gredu unrhyw beth". Caiff dysgwyr eu hannog i ddefnyddio'u llais i rannu eu dealltwriaeth o ffydd, perthyn, hunaniaeth a chyfiawnder. Fel Llysgenhadon, mae dysgwyr yn arwain gwaith hawliau ar draws yr ysgol, fel gwasanaethau ar themâu Gwerthoedd.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel lle gall plant archwilio eu hysbrydolrwydd ac, os dymunant, datblygu perthynas â Duw. Mae dysgwyr yn deall bod gweddi yn gallu bod ar y cyd a hefyd yn beth hynod o bersonol. Maent yn cael eu hannog i weddïo, os dymunant, mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu cefndiroedd ffydd unigol, gan helpu pob plentyn i deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys fel aelod hanfodol o'r gymuned. Ar ddeall hunaniaeth y mae'r ffocws, yn hytrach nag ar hyrwyddo crefydd.

Mae'r diwylliant hwn o weddi dan arweiniad dysgwyr wedi'i wreiddio yn y drefn ddyddiol. Mae'n cynnwys gweddi sy'n arbennig i'r ysgol, a gafodd ei hysgrifennu gan y plant ac sy'n cael ei hadrodd ganddynt i gyd. Mae dysgwyr yn dangos lefel uchel o ymreolaeth, gan ddatblygu hyder ac ymdeimlad cryf o berthyn. Mae dysgwyr yn awyddus i rannu eu treftadaeth, eu ffyddiau a'u traddodiadau diwylliannol, yn ogystal â'u dysgu yn y dosbarth. Mae'r prosiect Celf Coeden Pasg y plant, sy'n cael ei arddangos yn y gymuned leol, yn dangos gweithrediad y plant ar yr hawl i arddel eu crefydd a'u credoau eu hunain. Mae plant yn siarad yn gadarnhaol am adegau arbennig yn y flwyddyn ysgol, gan gynnwys yr "Asynnod a Stori'r Geni" gyda phypedau ac ymweliad gan asyn go iawn.

Mae cynefin yr ysgol yn cael ei gyfoethogi gan ei phartneriaeth weithredol ac amlwg gydag eglwysi lleol a'r gymuned ehangach. Mae clerigwyr o Ardal Weinidogaeth De Caerdydd yn darparu presenoldeb cyson, cefnogol ar draws yr ysgol, yr eglwys a'r gymuned leol, ac maent yn arweinwyr uchel eu parch yn y ffydd Gristnogol. Mae'r berthynas hon yn darparu sylfaen gadarn i fywyd litwrgaidd yr ysgol.

Mae amrywiaeth yr ysgol yn gryfder cyffredin sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu fel dinasyddion moesegol, gwybodus. O fewn cymuned yr ysgol, mae dysgwyr yn parchu credoau ei gilydd ac yn dangos diddordeb gwirioneddol mewn dysgu amdanynt. Mae arweinwyr a dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall y cysylltiadau rhwng eu ffyddiau.

Mae'r ethos hwn yn amlwg yn y ffaith bod yr ysgol wedi cynnal Iftar cymunedol, a ddaeth â phobl ynghyd ar gyfer gwledd fawr, dan arweiniad y gymuned, gan ganolbwyntio ar undod a gwerthoedd cyffredin. Mae'r rhain a phrofiadau ystyrlon cyffredin eraill yn dyfnhau parch y ddwy ffordd ac yn atgyfnerthu ymrwymiad yr ysgol i gymuned gysylltiedig a chytûn sydd â “mwy yn gyffredin”.

Trwy ddarparu amgylchedd diogel lle gall dysgwyr ofyn ac ateb cwestiynau, mae'r ysgol yn meithrin empathi, dealltwriaeth a pharch at eu treftadaeth, eu credoau a’u traddodiadau eu hunain a rhai pobl eraill. Yn y modd hwn, mae hunaniaeth a pherthynas yn cyfrannu'n uniongyrchol at ffyniant ysbrydol a chymdeithasol cymuned yr ysgol gyfan.

Effeithiolrwydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn Ysgol Gynradd Sant Paul wedi'i integreiddio ar draws y cwricwlwm ac wedi'i alinio â chanllawiau ategol yr Eglwys yng Nghymru. Mae datblygiad dysgu wedi'i fapio yn ôl Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (MDaPh). Mae'r ysgol yn defnyddio cysyniad yr Eglwys yng Nghymru o’r Hunan, Eraill, Harddwch a Thu Hwnt i gynllunio profiadau dysgu cyfannol o'r Feithrinfa i Flwyddyn 6.

Mae dysgwyr cynnar yn archwilio harddwch y Greadigaeth trwy wneud gludwaith o ddeunyddiau hydrefol naturiol. Maent yn dechrau ystyried pwysigrwydd cadw dŵr trwy ddylunio ffyrdd o gasglu dŵr glaw yn yr ardal ddysgu awyr agored. Mae dysgwyr yn profi rhyfeddod wrth iddynt fyfyrio ar y byd, yn creu Cwestiynau Mawr fel "Tybed pam mae gan ddolffin asgell ar ei gefn?", ac yn ystyried efallai na fydd bob amser ateb i rai cwestiynau. Mae dysgwyr hŷn yn myfyrio ar sut y maent yn gofalu am y Greadigaeth, gan ysgrifennu llythyrau at blentyn yn 2076 am gamau a gymerwyd yn 2026 i helpu i ddiogelu'r dyfodol. Maent hefyd yn ymafael â Salm 8 ac yn myfyrio ar ei hystyr dyfnach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymagwedd wrthrychol, feirniadol a phlwraliaethol at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae dysgwyr yn archwilio'r byd trwy fyfyrio ac ymholi wedi'u siapio gan chwilfrydedd, syndod a rhyfeddod. Mae dysgwyr iau yn defnyddio cwestiynau "Tybed... pam, os, sut a beth" i archwilio dirgelion y Greadigaeth. Mae dysgwyr hŷn yn cryfhau eu meddwl beirniadol a'u llafaredd trwy ymholi athronyddol. Er enghraifft, maent yn dehongli'r ystyron dyfnach yn Nameg yr Hedyn Mwstard ac yn ystyried y gwerthoedd sydd eu hangen i adeiladu byd gwell a mwy cyfiawn.

Yn Ysgol Gynradd Sant Paul, mae cwricwlwm sy'n seiliedig ar werthoedd yn cefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion byd-eang sy'n wybodus yn foesegol. Mae dysgwyr yn archwilio effaith eu gweithredoedd ac yn ystyried sut y gall eu lleisiau ysbrydoli newid. Mae ymholiadau dosbarth yn darparu cyfleoedd i gynllunio a chymryd camau ymarferol er budd eraill yn yr ysgol, y gymuned leol a'r byd ehangach. Mae'r

profiadau hyn yn darparu ffyrdd ystyrlon i ddysgwyr roi eu gwerthoedd ar waith a chyfrannu'n gadarnhaol at y cymunedau y maent yn rhan ohonynt.

Mae dysgwyr yn cydnabod amrywiaeth eu cymuned ac yn rhannu'r hyn y maent yn ei ddysgu am bwysigrwydd gwybodaeth, credoau ac arferion diwylliannol. Mae'r ysgol yn dathlu hawliau pawb ac yn annog aelodau'r gymuned i rannu eu storïau. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, mae Ysgol Gynradd Sant Paul yn darparu cyfleoedd i bawb archwilio a deall eu hawliau a sut y maent yn cael eu rhannu ledled y byd. Mae llais y dysgwr yn rhan bwysig o ymagwedd yr ysgol. Mae bron bob dysgwr hŷn yn cytuno y gallant ofyn cwestiynau, rhannu eu syniadau a gwrando ar eraill ym maes CGM. Mae'r cyfleoedd hyn yn meithrin trafodaeth barchus ac yn helpu dysgwyr i ymgysylltu â safbwyntiau gwahanol.

Mae'r ysgol yn gwreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a DARPL yn ei ffordd o weithredu. Mae egwyddorion gwrth-hiliol wedi'u gwreiddio'n benodol ym maes CGM ac mewn cynllunio cwricwlaidd ehangach. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi dysgwyr i herio stereoteipiau, cydnabod rhagfarn, a datblygu parch at bob person a chymuned. Mae'n hyrwyddo parch at gefndiroedd ffydd a diwylliannol amrywiol, gan adeiladu ymdeimlad balch o gynefin, treftadaeth a hunaniaeth ym mhob dysgwr. Mae pob rhiant/gofalwr a roddodd adborth yn cytuno bod CGM yn helpu eu plentyn i ddeall Cristnogaeth a ffyddiau a chredoau eraill y byd. Maent yn nodi y gallai dealltwriaeth gliriach o CGM helpu teuluoedd i gael sgyrsiau perthnasol gartref ac annog chwilfrydedd dyfnach eu plentyn yn eu dysgu. Hoffai rhieni/gofalwyr gefnogi dysgu eu plant trwy weld yr hyn sy'n cael ei ddysgu mewn CGM trwy lens eu ffydd eu hunain a thrwy archwilio cysylltiadau rhwng ffyddiau.

Effeithiolrwydd arweinyddiaeth yr ysgol fel ysgol eglwysig

Mae Ysgol Gynradd Sant Paul yn amgylchedd dysgu cydweithredol sy'n meithrin cariad gydol oes at ddysgu. Mae staff wedi ymrwymo i barhau â'u twf proffesiynol ac i weithio fel tîm i greu amgylchedd dysgu pwrpasol lle mae cyfraniadau pawb yn cael eu gwerthfawrogi. Mae llais y plentyn yn cael ei gydnabod fel rhan bwysig o arweinyddiaeth yr ysgol, gyda grwpiau gweithredu disgyblion yn cefnogi gwaith yr ysgol. Caiff dysgwyr eu hannog i ddefnyddio eu hymreolaeth, gweithio gyda'r gymuned leol, ysgrifennu at ffigyrau cyhoeddus, a defnyddio'u llais i dynnu sylw at yr hyn sy'n bwysig.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi gweledigaeth yr ysgol ac wedi ymrwymo i rôl yr ysgol yn y gymuned. Mae'r ysgol yn ymdrechu i greu amgylchedd diogel, meithringar lle mae pob dysgwr yn cael ei barchu a'i werthfawrogi, a lle mae ei urddas yn cael ei gynnal. Mae'n ceisio galluogi pob dysgwr i ffynnu'n academaidd, yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Mae rhieni/gofalwyr yn cydnabod cyfraniad yr ysgol at feithrin caredigrwydd, parch a thrugaredd, yn ogystal â chefnogi hyder, lles a datblygiad personol dysgwyr.

Mae gwaith yr ysgol fel sefydliad sy'n dysgu yn cael ei adlewyrchu yn ei diwylliant o ddysgu proffesiynol. Mae staff yn rhannu eu harbenigedd trwy gysylltiadau sefydledig â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, gan gefnogi a mentora myfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon BA a TAR. Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau arweinyddiaeth strategol cryf, fel y gwelir yn ei chyfraniadau at addysgu gwrth-hiliol. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn nogfennaeth Llywodraeth Cymru a'r cyfryngau cenedlaethol. At hynny, mae ymroddiad yr ysgol i ethos cynhwysol a chwricwlwm gwrth-hiliol wedi ennill cydnabyddiaeth ranbarthol a chenedlaethol.

Fel ysgol wrth-hiliol, mae Sant Paul yn cynnal digwyddiadau dysgu clwstwr ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol ar gyfer ysgolion a chlystyrau ledled Cymru. Mae dysgwyr yn gweithredu fel Llysgenhadon yr ysgol ac yn siarad gyda balchder am eu treftadaeth a sut y maent yn mynd ati'n weithredol i gydnabod, herio a datgymalu hiliaeth yn eu hysgol a'u cymuned leol. Mae bron bob dysgwr yn cytuno bod "yr ysgol yn fy helpu i feddwl am gwestiynau mawr mewn bywyd".

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul yn rhagweithiol am ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol â chymunedau Cristnogol ac aml-ffydd lleol, gan alluogi dysgwyr i ddod ar draws ystod amrywiol o ddysgeidiaethau a mynegiannau o ffydd. Mae dysgwyr hefyd yn cyfrannu at arweinyddiaeth a bywyd ysgol trwy rolau fel Ffrindiau Ffydd, sy'n helpu i arwain gweddi a hyrwyddo dealltwriaeth ryng-ffydd ar draws cymuned yr ysgol. Mae'r ysgol yn cefnogi cymuned leol gydlynol trwy bartneriaethau a digwyddiadau dinesig. Mae'n gweithio'n agos gyda phrosiect Porth Cymunedol Grangetown Prifysgol Caerdydd ar ystod o fentrau lleol. Er mwyn dangos bod gan y gymuned "fwy yn gyffredin", mae'r ysgol yn cynnal digwyddiadau gan gynnwys sesiynau Great Get-Together, picnics cymunedol, a'r iftar yn ystod Ramadan. Mae'r digwyddiadau hyn yn dod â theuluoedd, y clerigwyr, yr imam lleol, ac arweinwyr ffydd o gefndiroedd amrywiol ynghyd i rannu bwyd a dathlu eu cynefin cyffredin.

Mae arweinwyr yr ysgol yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarn ag arweinwyr cymunedol a ffydd lleol, cynghorwyr, Aelodau o'r Senedd, ac Aelodau Seneddol. Trwy groesawu'r arweinwyr dinesig hyn i'r ysgol, maent yn rhannu ei gwaith, ei ethos cynhwysol a'i gwerthoedd, gan atgyfnerthu cyfraniad Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul at adeiladu cydlyniant cymdeithasol a pharch y ddwy ffordd.

Sbotolau: Gweithredu yn erbyn Hiliaeth a Dathlu Eiriolaeth Dysgwyr

Yr Arfer: Mae Sant Paul yn dangos sut mae llythrennedd a dysgu drwy ymholi ym maes CGM yn gweithio mewn cytgord i feithrin dysgwyr fel Llysgenhadon, gan rymuso llais dysgwyr yn effeithiol i helpu i adeiladu cymuned gynhwysol, wrth-hiliol. Trwy'r ymagwedd ryngddisgyblaethol hon, mae dysgwyr yn datblygu'r

sgiliau, yr hyder a'r llythrennedd sy'n ofynnol i gydnabod, herio a datgymalu hiliaeth yn eu hysgol, eu cymuned leol ac yn ehangach. **Effaith Go lawn yn y Gymuned:** Mae'r diwylliant hwn o eiriolaeth yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth i galon y gymuned. Yn ystod dathliadau blynyddol yr haf, mae teulu cymunedol Sant Paul yn dod ynghyd ar gyfer eu picnics Great Get-Together. Mae'r digwyddiadau hyn yn canolbwyntio'n fwriadol ar rannu diwylliannol i feithrin ymdeimlad dwfn o berthyn, gan amlygu'r ysgol fel teulu cynhwysol o fewn y gymuned ehangach.

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer gweithredoedd addoli ar y cyd	**Y**
Mae'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg	**Y**
Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol	**Y**